



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cynnig i ddirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad)(Cymru) 2012

Dyddiad cyhoeddi: 15 Mawrth 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 6 Mehefin 2016

Trosolwg

Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i bennu dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru o dan adran 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Cafodd y set gyfredol o ddangosyddion perfformiad statudol ei sefydlu gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad)(Cymru) 2012. Mae Llywodraeth Cymru am glywed eich barn ar y cynnig i ddirymu'r Gorchymyn.

Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 6 Mehefin 2016. Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy gwblhau'r Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriadau.

Dylech ddychwelyd eich ymatebion naill ai'n electronig neu drwy'r post i:

E-bost:

LGFPMail@wales.gsi.gov.uk

Post:

Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Ceir copi o Orchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012 yn Atodiad A.

Manylion cysylltu

Am ragor o wybodaeth:

Cyfeiriad: Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: LGFPMail@wales.gsi.gov.uk

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cefndir

Cafodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (“y Mesur”) ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn Cyfarfod Llawn ar 28 Ebrill 2009 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 10 Mehefin 2009. Prif fwriad y Mesur yw creu cyfundrefn statudol sy’n integreiddio cynllunio cymunedol tymor hir a gwelliannau mwy tymor byr i wasanaethau lleol.

O dan adran 8 o’r Mesur, gall Gweinidogion Cymru bennu dangosyddion perfformiad a safonau er mwyn mesur perfformiad awdurdodau lleol Cymru.

Gwnaethpwyd penderfyniadau ynglŷn â pha ddangosyddion perfformiad ddylai gael eu paratoi ar delerau statudol gyda golwg ar gyd-destun polisi ehangach Llywodraeth Cymru gan eu bod yn hanesyddol wedi bod yn rhan bwysig o fframwaith mesur perfformiad ehangach ar gyfer awdurdodau lleol.

Cafodd y set wreiddiol o ddangosyddion perfformiad a safonau ei sefydlu gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad a Safonau) (Cymru) 2010 (“Gorchymyn 2010”). Dewiswyd y dangosyddion a’r safonau hyn gan mai hwy oedd y rhai gorau i olrhain cynnydd yn erbyn cyflawniad awdurdodau lleol yn y meysydd a nodwyd fel blaenoriaeth yn rhaglen *Cymru’n Un* y llywodraeth glymblaid ar y pryd. Yn ogystal â’r dangosyddion statudol hyn penderfynwyd y byddai dangosyddion perfformiad anstatudol yn cael eu pennu gan yr awdurdodau lleol eu hunain ac a fyddai’n cael eu cydlynu gan Gymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru.

Mae’r set gyfredol o ddangosyddion perfformiad statudol wedi’u pennu yng Ngorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012 (“y Gorchymyn”). Nid yw’r Gorchymyn yn cynnwys unrhyw safonau perfformiad. Mae mwyafrif y dangosyddion yn deillio o’r rhai a oedd wedi’u cynnwys yng Ngorchymyn 2010 a’u hategu gan nifer fach o ddangosyddion perfformiad ychwanegol a gymerwyd o *Raglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru.

Gelwir y dangosyddion statudol hyn yn Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (“DSC”) ac fe’u cyhoeddir gan StatsCymru mewn datganiad ystadegol.

Diben yr ymgynghoriad

Mae’r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y cynnig i ddirymu’r Gorchymyn. Ceir copi o’r Gorchymyn yn Atodiad A.

Y Sefyllfa Bresennol

Mae’r set gyfredol o ddangosyddion perfformiad statudol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru wedi’u pennu yn y Gorchymyn. Os na fydd y cynnig i ddirymu’r Gorchymyn yn mynd yn ei flaen yna bydd y Gorchymyn hwn yn parhau mewn grym.

Nid yw dirymu’r Gorchymyn yn atal Gweinidogion Cymru, ar ryw adeg yn y dyfodol, (tra bydd y Mesur yn parhau mewn grym) rhag gwneud Gorchymyn newydd sy’n pennu dangosyddion a / neu safonau ar gyfer y cylch data dilynol.

Yr Achos dros Newid

Mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymrwymo i adolygu sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad llywodraeth leol, i gael gwared ar fiwrocratiaeth ddiangen, creu system symlach i fesur perfformiad a sicrhau bod y pwyslais ar hybu gwelliant trwy ddefnydd mwy deallus o dystiolaeth.

Daeth adolygiad o'r gofynion presennol y DSC a geir yn y Gorchymyn i'r casgliad bod y dangosyddion yn cael eu dyblygu i raddau helaeth, eu bod yn gorgyffwrdd neu eu bod wedi cael eu disodli gan ofynion data perfformiad a geir mewn deddfwriaeth neu fframweithiau perfformiad eraill. Er enghraifft:

- a) y cod ymarfer sy'n gysylltiedig â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi'i gyhoeddi o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac a ddaw i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r cod ymarfer hwn yn dyblygu rhai o'r dangosyddion perfformiad sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn. Tybir fod dangosyddion eraill a bennir yn y cod yn fwy perthnasol i fesur perfformiad awdurdodau lleol na'r rhai a geir yn y Gorchymyn.
- b) mae Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 yn cynnwys dangosyddion perfformiad sydd wedi'u dyblygu yn y Gorchymyn. Disgwylir y bydd Rheoliadau Diwygio gyda dangosyddion perfformiad newydd yn dod i rym eleni, ac o ganlyniad bydd mwyafrif y dangosyddion addysg a geir yn y Gorchymyn wedi dyddio.
- c) mae'r data a gesglir fel rhan o'r Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru anstatudol yn cynnwys dangosydd ar gyfer ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus sy'n cael ei ddyblygu yn y Gorchymyn.
- d) mae'r data sydd ei angen ar gyfer y dangosydd rheoli gwastraff yn y Gorchymyn yn awr yn cael ei gofnodi trwy WasteDataFlow yn hytrach na'r data DCS a gesglir.

Felly mae dirymiad y Gorchymyn yn cael ei gynnig gan y byddai diddymu'r Gorchymyn yn gam tuag at gael gwared ar y baich cydymffurfriad presennol ar adeg pan mae adnoddau'n brin a phan fod angen i'w defnyddio'n fwy effeithlon i gyflenwi gwasanaethau Llywodraeth Leol.

Hefyd, mae'r rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol a chyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn golygu bod fframweithiau perfformiad awdurdodau lleol yn newid i ganiatáu awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar y gwaith o weithio'n fwy effeithiol i gyflawni'r amcanion llesiant.

Y cynnig sy'n cael ei ystyried

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gasglu barn ar y cynnig i ddirymu'r Gorchymyn.

Bydd yr ymgynghoriad yn para am gyfnod o 12 wythnos o 15 Mawrth tan 6 Mehefin 2016.

Os bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn dangos y byddai rhanddeiliaid yn croesawu dirymu'r Gorchymyn:

- bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i wneud y ddeddfwriaeth angenrheidiol gyda'r bwriad o'i gweld yn dod i rym cyn gynted â phosibl.
- bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig rhoi'r gorau i gasglu data DSC a datganiad ystadegau DSC o 2016-17 ymlaen, gan olygu mai data 2015-16 oedd y flwyddyn adrodd olaf.
- bydd y tudalennau Perfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol ar wefan Llywodraeth Cymru yn parhau i gael eu cynnal a'u diweddarau i roi darlun o berfformiad awdurdodau lleol a ddaw o ystod o ffynonellau data eraill a gesglir eisoes.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno y dylai Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012 gael ei ddirymu?

Cwestiwn 2: A ydych chi'n credu y byddai unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu oblygiadau'n codi yn sgil dirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012?

Mae'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad B. Mae'r ffurflen hefyd yn gyfle i gynnig sylwadau ychwanegol wrth ateb y cwestiynau hyn.